

Dywed DfES (2007) fod angen i weithwyr proffesiynol cael dealltwriaeth ddyfnach o'r plant yr ydym yn gweithio gyda bydd yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddatblygu plant yn y ffordd gorau i ddatblygu. Mae'n bwysig i weithwyr proffesiynol cydweithio aml-asiantaethol er mwyn helpu rhoi cymorth gorau i blant gydag anghenion dysgu (ADY) fydd yn rhoi cymorth plentyn a theulu'r plentyn i'r anghenion sydd gyda'r plentyn i ddatblygu. Roedd adroddiad Warnock wedi cael eu datblygu yn 1978 ar gyfer rhoi addysg fwy cynhwysol i blant gydag anghenion dysgu. Roedd yr adroddiad wedi dangos fod angen plant gydag anghenion dysgu cael y cyfle i fod yn ysgolion prif lif. Wrth roi plant gydag anghenion dysgu i mewn i ysgolion prif lif yr ydym yn deimlad o berthyn, ac mae damcaniaethwr o'r enw Maslow yn ddweud fod angen plant i gael teimlad o berthyn er mwyn galluogi nhw i ddatblygu (Siencyn, 2010). Roedd Adroddiad Warnock wedi datblygu'r Ddeddf addysg 1981 roedd yn cynnwys fwy o ddeddfwriaethau am blant gydag anghenion dysgu. Nod y traethawd yma yw edrych ar ddyslecsia, sut mae ysgolion yn rhoi addysg gynhwysol i blant gyda dyslecsia, ac ar ddull all helpu ddatblygu plant gyda dyslecsia. Fydd y traethawd hefyd yn edrych ar fel mae angen gweithwyr proffesiynol angen datblygu eu dealltwriaeth nhw am ddyslecsia i roi'r cymorth gorau, a pam fod angen gwahanol fathau o ddulliau i roi cymorth i wahanol fathau o ddyslecsia.

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) mae arfer cynhwysol o fewn addysg yn meddwl cynnwys pawb a chreu cymorth i bawb i gymryd rhan yn weithgareddau, er mwyn i bawb cyflawni eu potensial o fewn addysg. Dylai plant sydd gyda ADY, er enghraifft dyslecsia, cael eu cynnwys o fewn addysg trwy'r staff cynnig cymorth, a trwy newid y ffordd yr ydym yn dysgu er mwyn galluogi'r plentyn cael eu cynnwys. Dylai arfer cynhwysol fod yn bolisi ysgol gyfan er mwyn sicrhau fod pob plentyn o fewn ysgolion yn cael y cyfle i gymryd rhan, ac i blant sydd gyda ADY fyddwn yn wneud hwn wrth gael cymorth. Mae hwn yn dangos fod Llywodraeth Cymru (2015) yn mabwysiadu'r model cymdeithasol am anabledd, ac eisiau hwn cael eu cynnwys o fewn addysg ysgolion. Mae'r model cymdeithasol yn golygu fod angen i'r amgylchedd a phobl i newid er mwyn galluogi pobl sydd gydag anabledd i gymryd rhan mewn addysg, neu bethau arferol. Enghraifft o hwn yw rhoi 1:1 i rhywun gyda sydd gyda dyslecsia er mwyn iddyn nhw gymryd rhan o fewn y dosbarth (Barnes, 2009). Ond mae addysg o fewn gwledydd fel Iseldiraidd yn trafod anabledd dysgu fel fod angen gwella neu atal yr anabledd eu ddatblygu (Van der Leij, 2013). Mae hwn yn dilyn y model meddygol am anabledd gan eu bod yn rhoi bai ar yr anabledd, a fydd angen atal yr anabledd yn lle rhoi cymorth i'r bobl sydd gyda'r anabledd (University of Leicester, 2008). Mae hwn yn dangos fod gan wledydd arall barn wahanol ar sut delio gyda phlant gyda ADY o fewn ysgolion, a pa

fath o ddull i ddefnyddio. Yn ymchwil Van der Leij (2013) oedd wedi cael eu gwneud yn Denmarc, wedi dangos yr addysg yn trafod ymyrraeth gynnar fel ffordd i atal anabledd dysgu ac nid i roi cymorth, sydd yn mynd yn erbyn beth mae Llywodraeth Cymru (2015) yn dweud, wrth ddefnyddio ymyrraeth gynnar fel ffordd i roi cymorth. Fodd bynnag roedd peth sôn am ddefnyddio ymyrraeth gynnar i roi cymorth yn ymchwil Van der Leij (2013), sydd yn dangos newid o fewn addysg yn Denmarc.

Dywed Barnes (2009) fod y model cymdeithasol o anabledd yn dangos fod rhwystrau yn yr amgylchedd, ac o fewn gweithgareddau sydd yn atal pobl gydag anabledd rhag cymryd rhan. Mae Scott (2016) yn egluro fod y rhwystrau yma yn gallu fod yn staff ysgolion sydd ddim yn hyfforddi eu hunan i helpu plant gydag anabledd dysgu, neu'r amgylchedd yn yr ysgol sydd yn wneud o'n anodd i blentyn cymryd rhan. Mae ysgolion yn gallu fod yn rhwystrau i blant gydag anabledd dysgu wrth gam-ddeall deddfau, y wahanol fathau o anabledd, ac fel i roi cymorth i blant gydag anabledd fel dyslecsia. Roedd hwn yn dangos y rhwystrau i'r plant a theuluoedd sydd angen y cymorth i'r plant gydag anabledd dysgu, gan fod y cymorth cywir ddim yn cael eu cynnig ac roedd y plentyn yna ddim yn cael addysg gynhwysol, ac yna ddim yn datblygu.

Mae Llywodraeth Cymru (2015) yn dweud fod gan ymarferwr dysgeidiaeth cyfrifoldeb i gael yr hyfforddiant fydd yn galluogi pob plentyn yr ydym yn dysgu i ddatblygu'r gorau gallwn. Wrth i'r staff ysgolion cael hyfforddiant diweddar fyddwn yn galluogi'r plentyn cael addysg gynhwysol a datblygu'r gorau gallwn. Awgryma Scott (2016) dylai athrawon a gweithwyr plentyndod cynnar cael hyfforddiant i adnabod dangosyddion o wahanol fathau o anabledd dysgu, ac fel i roi'r addysg gorau fydd yn hybu'r datblygiad plant gyda gwahanol fathau o anabledd dysgu. Fodd bynnag mae Benfatto et al (2016) yn dweud nad oes digon o adnoddau i helpu athrawon a gweithwyr plentyndod cynnar adnabod plant sydd gydag anabledd dysgu yn y blynyddoedd cynnar, ac nid oes digon o ymchwil i ddangos yn union fel i adnabod dangosydd o anableddau dysgu fel dyslecsia. Mae ymchwil oedd wedi cael eu cynnal yn Sweden yn dangos fod diagnosis o ddyslecsia ar gyfartaledd yn cael eu darganfod pryd mae'r plentyn yn 13 blwydd oed (Rayner, Ashby a Clifton, 2012). Gan fod y cymorth ddim wedi cael eu rhoi yn y blynyddoedd cynnar y plentyn, mae'r plentyn ar lefel isel o ran eu datblygiad addysgol oedd yn arwain at gyfyngder emosiynol, hunan-barch isel, a chymhelliant isel (Vaugh et al, 2010). Hefyd mae Benfatto et al (2016) yn dangos fod anabledd dysgu yn gallu cael eu diagnosis anghywir oherwydd mae rhai adnabyddiaeth o ddyslecsia'r un peth yn ADGC (ADHD). Fydd hwn yn rhoi problemau wrth roi cymorth i blant oherwydd all y plentyn cael y cymorth anghywir fydd yn arafu eu datblygiad, ac yn

effeithio ar ddatblygiad am weddill eu bywydau. Awgryma hefyd fod nad yw pob plentyn sydd yn cyflawni'n isel o fewn addysg gyda anabledd dysgu, ac fod rhai anableddau dysgu fel dyslecsia a ADGC yn cael diagnosis yn rhi aml i plant sydd ddim yn cyflawni lefelau cyffredin am plentyn eu oedran (Benfatto et al, 2016) (Llywodraeth Cymru, 2015).

Dywed Benfatto et al (2016) fod ymyriad cynnar yn rhoi'r cymorth gorau i'r plentyn datblygu o fewn addysg gynhwysol. Mae Llywodraeth Cymru (2015) yn cytuno gan ddweud fod ymyriad cynnar yn galluogi'r adnoddau a chymorth gorau yn cael eu rhoi trwy fywyd y plentyn, fydd yn rhoi cyfle i'r plentyn cyflawni eu potensial o fewn addysg. Fodd bynnag mae plant yn ymdrechu o fewn ysgolion am flynyddoedd gan nid oes adnabyddiaeth glir ar gael gydag athrawon i roi diagnosis anabledd dysgu i blant (Benfatto et al, 2016). Awgryma Van der Leij (2013) fod angen i'r plentyn methu o fewn addysg a bod o dan gyfartaledd sgiliau iaith eu hoedran er mwyn i'r athrawon adnabod fod y plentyn gyda dyslecsia. Hefyd mae Shaywitz a Moriss (2008) yn dweud nid allwn gael ymyriad cynnar yn y blynyddoedd cynnar am ddyslecsia oherwydd mae'r plentyn newydd ddechrau dysgu i ddarllen. Mae hwn yn atal ymyriad cynnar gan fod nid oes gan y plentyn dealltwriaeth dda o ddarllen ac iaith, a fydd nodweddion o ddyslecsia ddim yn cael eu dangos yn glir. Mae Llywodraeth Cymru (2015) ddim yn dangos beth yw nodweddion pob anabledd dysgu, sydd yn atal athrawon rhag gwneud diagnosis cynnar i'r plentyn. Awgryma Scott (2016) fod angen i'r ysgolion galluogi eu hathrawon i gael hyfforddiant er mwyn adnabod nodweddion gwahanol anableddau dysgu, a sut i roi cymorth i'r plant sydd gyda'r anableddau dysgu. Wrth roi hyfforddiant diweddar i athrawon allwn ddysgu am nodweddion dyslecsia a dod i ddeall sut i roi cymorth ar gyfer plant gyda dyslecsia.

Dywed Llywodraeth Cymru (2015) fod plant a phobl ifanc sydd gydag anabledd dysgu fel dyslecsia yn cael IDP fydd yn disgrifio pa fath o anabledd dysgu sydd gyda'r plentyn neu bobl ifanc. Fydd yr IDP hefyd yn cynnwys canlyniad ar gyfer y plentyn a gweithwyr proffesiynol fydd yn helpu'r plentyn i ddatblygu'r plentyn, all hwn cynnwys datblygu ar rywbeth sydd yn helpu'r plentyn ac yn datblygu nhw yn dda, newid rhywbeth sydd ddim yn gweithio a ddim yn datblygu'r plentyn, neu symud i ddatblygu dyhead newydd. Fydd hwn yn rhoi cyfle i bawb sydd yn gweithio gyda'r plentyn symud tuag at yr un nod er mwyn ddatblygu ar roi'r cymorth gorau gallwn i'r plentyn (Llywodraeth Cymru, 2015). Fodd bynnag mae Benfatto et al (2016) yn dweud mai yna gwahanol fathau ac amrywiant o ddyslecsia sydd yn wneud o'n anodd darganfod pa fath o ddyslecsia sydd gyda phlentyn, a pa fath o gymorth sydd angen ar y plentyn gan fod llawer o amrywiant gyda dyslecsia. Mae hwn yn dangos pa mor bwysig yw'r IDP i egluro pa fath o ddyslecsia sydd gan y plentyn er mwyn

iddyn nhw gael y cymorth cywir (Fouganthine, 2012). Ond, awgryma Morris a Shaywitz (2008), gan fod cymaint o amrywiant o ddyslecsia mae'n bwysig sicrhau fod y cynllun cywir yn cael eu dewis i'r plentyn a pa fath o ddyslecsia sydd gyda nhw.

Mae yna gwahanol fathau o ddulliau sydd yn gweithio am ddyslecsia, ond mae llawer o'r dulliau yn gweithio am un fath o ddyslecsia neu wahanol blant. Mae hwn yn dangos pa mor bwysig mae ymyrrant cynnar ar gyfer dyslecsia, a bod angen i weithwyr proffesiynol gyda'r gallu i adnabod y gwahanol fath o ddyslecsia. Dywed Benfatto et al (2016) fod angen fwy o brawf sgrinio am ddyslecsia cael eu gwneud o fewn ysgolion, fydd yn rhoi'r cyfle i roi'r cymorth gorau a cywir i'r plentyn. Fodd bynnag, dywed Scott (2016) fod y cymorth a dulliau gwahanol ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer plant gyda dyslecsia oherwydd ariannu. Mae ymchwil Scott (2016) wedi gofyn am adborth o rieni plant gyda dyslecsia am brofiad nhw gyda chymorth am eu plant. Roedd yr ymchwil wedi dangos fod y plant ddim yn cael y cymorth oherwydd ariannu o fewn ysgolion, ac yna'r cymorth ddim yn cael eu cynnig i'r plentyn. Mae'n amlwg fod yna llawer o ffactorau i ystyried ar gyfer rhoi'r cymorth cywir i blant gyda dyslecsia, ond hefyd os fydd y plentyn wedi cael diagnosis cywir yna falle fydd problemau ariannol o fewn yr ysgol fydd yn lleihau'r cyfle o'r plentyn cael eu cymorth gorau gallwn.

Dywed Morris a Shaywitz (2008) fod angen dulliau systematig sydd yn dadgodio geiriau er mwyn rhoi cymorth i blant gyda dyslecsia o fewn ymyrrant cynnar. Wrth ddefnyddio dulliau fel hyn mae ymchwil Morris a Shaywitz (2008) yn dangos fod hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol i roi cymorth i blant gyda dyslecsia yn y blynyddoedd cynnar. Mae dull yma yn cynnwys dysgu plant o fewn blynyddoedd cynnar o addysg i dorri lan y geiriau er mwyn datblygu dealltwriaeth o eiriau. Hefyd mae'r dull yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer plant heb ddyslecsia i ddechrau datblygu sgiliau iaith yn y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, dywed Benfatto et al (2016) fod gan bob plentyn gwahanol amrywiant o ddyslecsia, a fydd angen defnyddio gwahanol fathau o ddulliau ar gyfer pawb. Mae hwn yn anghytuno gyda dull Morris a Shaywitz (2008) gan fod nhw ddweud fod dulliau systematig sydd yn torri lan y geiriau yw'r ffordd gorau i helpu plant gyda dyslecsia. Ond mae Morris a Shaywitz (?) ddim wedi esterriad beth mae Benfatto et al (2016) yn ddweud fod gwahanol amrywiant o ddyslecsia. Fodd bynnag mae Morris a Shaywitz (2008) yn ddweud eu bod yn adnabod fod o'n anodd rhoi diagnosis o ddyslecsia i blant yn y blynyddoedd cynnar, ac yna yn ddweud fod y dull systematig o dorri lan geiriau yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu plant yn y blynyddoedd cynnar sydd gyda dyslecsia a phlant sydd ddim gyda dyslecsia.

Mae McArthur et al (2015) yn cytuno gyda Morris a Shaywitz (2008) fod dull systematig o torri lan y gair yn gweithio'n effeithiol i blant gyda dyslecsia. Dywed McArthur et al (2015) fod y dull yma wedi cael eu galw yn darllen ffonig trwy ddefnyddio rheolau 'grapheme-phoneme correspondence' (GPC), sydd yn meddwl defnyddio sŵn y llythrennau i greu'r gair. Yn ôl McArthur et al (2015) mae'r dull yma wedi cael eu dangos o fewn gwahanol fathau o ymchwilion eu bod yn gweithio'n effeithiol i blant gyda dyslecsia i ddatblygu sgiliau'r plant o ddarllen. Mae Ahmas et al (2012) yn dweud fod y darllen ffonig yn gweithio'n effeithiol o fewn gwahanol ieithoedd i blant gyda dyslecsia. Mae ymchwil Ahmas et al (2012) wedi defnyddio'r dull darllen ffonig ar gyfrifiaduron o'r enw 'Bijak Membaca', sydd yn cynorthwyo'r plentyn sydd gyda dyslecsia gyda darllen trwy'r darllen ffonig. Mae 'Bijak Membaca' yn cael eu defnyddio ar gyfer plant yn flynyddoedd cynnar, sef 7 i 8 blwydd oed. Mae'r dull o ddarllen ffonig yn rhoi pwyslais ar sŵn llythyren cyfatebiaeth a gweithgareddau o gydnabyddiaeth o eiriau. Mae darllen ffonig yn ffordd naturiol o ddysgu i ddarllen (Ahmas et al, 2012) sydd yn gweithio am lawer o blant sydd heb ddyslecsia hefyd. Mae ymchwil Ahmas et al (2012) yn dangos fod darllen ffonig yn gallu cael eu ddefnyddio ar draws y byd yn gwahanol ieithoedd, sydd hefyd yn galluogi'r dull cael eu ddatblygu gan gwahanol gwledydd, fel mae Ahmas et al (2012) wedi addasu system cyfrifiadur ar gyfer darllen ffonig i plant sydd yn siarad y iaith Malay.

Fodd bynnag, mae Vidyasagar a Pammer (2009) yn anghytuno gyda McArthur (2015), Morris a Shaywitz (2008), a Ahmas et al (2012). Dywed Vidyasagar a Pammer (2009) fod rhoi cymorth darllen ffonig i blant gyda dyslecsia ddim mynd i helpu datblygu'r plant, yn ôl Vidyasagar a Pammer (2009) mae dyslecsia ddim yn broblem seinyddol, sef problem gyda seinio allan y gair, ond yn broblem codio weledol. Mae ymchwil gan Mann a Wimmer (2002) yn awgrymu fod problemau gyda sgiliau seinyddol yn cael eu ddatblygu trwy'r ffordd mae plant yn dysgu i ddarllen. Mae'r ymchwil yn dangos fod plant oedd yn dysgu'r wyddor cyn dysgu i ddarllen gyda gwell sgiliau seinyddol nag plant oedd ddim yn dysgu'r wyddor cyn darllen. Mae hwn yn dangos fod gall llawer o elfennau eraill effeithio ar ddatblygiad darllen ac iaith plant, ac nid fod gan y plentyn dyslecsia (Vidyasagar a Pammer (2009)). Mae'r ymchwil yn awgrymu fod angen ystyried y fath o ddyslecsia sydd gan y plentyn, gan wrth ddefnyddio dull anghywir i roi cymorth i blentyn gyda dyslecsia yn mynd i atal y plentyn rhag datblygu, sef defnyddio'r dull darllen ffonig ar gyfer plentyn gyda dyslecsia codio gweledol. Mae ymchwil gan Oglethorpe (2002) yn dangos fod pobl sydd gyda dyslecsia yn darganfod yn anodd gwneud darllen golwg ar offeryn i gymharu gyda phobl sydd heb gyda dyslecsia. Awgryma Oglethorpe (2002) fod hwn yn digwydd oherwydd problemau codio

gweledol ac nid problemau seinyddol. Mae hwn yn cyd-fynd gyda syniad Mann a Wimmer (2002) gan ddangos y gwahanol fath o ddyslecsia sydd ar gael, a bod angen sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn defnyddio dulliau cywir ar gyfer plant gyda dyslecsia.

Fodd bynnag, mae Snowling et al (2011) yn awgrymu fod y dull darllen ffonig yn effeithiol i helpu datblygu plant gyda dyslecsia ac i adnabod os mae plentyn mewn perygl o gael dyslecsia. Roedd yr ymchwiliad ar 62 plant 6 blwydd oed, ac roedd y plant yma wedi cael eu hawgrymu gan athrawon am fod yn beryg o gael dyslecsia. Roedd yr athrawon wedi defnyddio'r dull darllen ffonig i awgrymu'r plant all fod gyda dyslecsia. Roedd Snowling et al (2011) wedi cymharu gwaith y plant 6 mis ar ôl iddynt hwy wedi cael eu hawgrymu gyda dyslecsia ac yn dangos fod y system yma wedi gweithio'n effeithiol i athrawon awgrymu'r plant sydd gyda dyslecsia. Awgryma Snowling et al (2011) fod angen gwella cywirdeb y prawf ffonig i athrawon er mwyn cael adnabod yn fwy clir pa blant sydd gyda dyslecsia.

I gloi, mae'r traethawd yma wedi edrych beth yw addysg gynhwysol ac fel mae Llywodraeth Cymru (2015) eisiau datblygu'r ffordd mae ysgolion yn rhoi addysg gynhwysol i blant gydag anghenion dysgu. Roedd y traethawd hefyd wedi sôn am wahanol wledydd yn defnyddio modelau gwahanol o anghenion, sef model cymdeithasol ar fodel meddygol, a pam fod y modelau yn wledydd yn dechrau newid i fod yn fwy cymdeithasol. Beth yw ymyriant cynnar, a pam mae'n bwysig i roi diagnosis i blant yn y blynyddoedd cynnar er mwyn rhoi'r cymorth gorau gallwn. Dangos fod yna gwahanol fathau o ddyslecsia, a bod angen dulliau gwahanol ar gyfer gwahanol blant gyda gwahanol fathau o ddyslecsia, gan fod plentyn yn dysgu'n gwahanol.

Cyfeirnod

Ahmas, S. Z., Lusin, N., Ekhsan, H. M., Rosmani, A. F. a Ismail, M. H. (2012) 'Bijak Membaca- Applying Phonic Reading Technique and Multisensory Approach with interactive multimedia for dyslexia children', *Science & Engineering Research*, Rhagfyr, tt. 554–559.

[Ar-lein]. Ar

gael:https://www.researchgate.net/profile/Arifah_Fasha_Rosmani/publication/261084330_Bijak_Membaca_Applying_Phonic_Reading_Technique_and_Multisensory_Approach_with_interactive_multimedia_for_dyslexia_children/links/5a2a70440f7e9b63e5358701/Bijak-Membaca-Appling-Phonic-Reading-Technique-and-Multisensory-Approach-with-interactive-multimedia-for-dyslexia-children.pdf [Darllenwyd: 12 Mai 2018].

Barnes, C. (2009) 'Understanding the social model of disability,'

<http://www.hso.se/Global/Projekt/Fr%C3%A5n%20forskningsobjekt/Forskning/Anteckningar%20Colin%20Barnes%20091118.pdf> [Darllenwyd: 10 Mai 2018].

Benfatto, M. Seimyr, G. Ygge, J. Pansell, T. Rydberg, A. (2016) 'Screening for Dyslexia Using Eye Tracking during reading', *PLoS One*, 11, 12, tt. 1-16. [Ar-lein]. Ar gael:

<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/1847563164/fulltextPDF/1DF22F52692942A6PQ/1?accountid=130472> [Darllenwyd: 10 Mai 2018].

DfES (2007) *The Early Years Foundation Stage: Effective practice: Multi-agency Working*. London: DfES.

Fouganthine, A. (2012) *Dyslexia from Childhood into Adulthood: A Developmental Perspective on Reading and Writing Disabilities*. Dissertation, Stockholm University.

Llywodraeth Cymru (2015) 'Draft Additional Learning Needs Code'

<https://gov.wales/docs/dcells/consultation/150929-draft-aln-code.pdf> [Darllenwyd: 13 Mai 2018].

Mann, V. a Wimmer, H. (2002) 'Phoneme awareness and pathways to literacy: a comparison of German and American children', *Reading and Writing*, 15, tt.653–682

McArthur, G. Castles, A. Kohnen, S. Larsen, L. Jones, K. Anandakumar, T. Banales, E.

(2015) 'Sight Word and Phonics Training in Children With Dyslexia', *Journal of Learning*

Disabilities, 48, 4, pp. 391-407. [Ar-lein]. Ar gael:

<http://citeseerx.ist.psu.edu/viewdoc/download?doi=10.1.1.823.5409&rep=rep1&type=pdf>

[Darllenwyd: 13 Mai 2018].

Morris. Shaywitz. (2008) 'The Education of Dyslexic Children from Childhood to Young Adulthood', *The Annual Review of Psychology*, 59, tt. 451-475. [Ar-lein]. Ar gael:

<https://pdfs.semanticscholar.org/7984/ba8e1e738c1d1541d8fa8d7a15b161d73118.pdf>

[Darllenwyd: 13 Mai 2018].

Oglethorpe, S. (2002) *Instrumental music for dyslexics: A teaching handbook*. London: Whurr Publishers.

Rayner, K., Pollatsek, A., Ashby, J. a Clifton, C. (2012). *Psychology of reading* (2nd ed.). New York, NY: Psychology Press.

Scott, L. (2016) 'SEND: The schools and colleges experience'

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/564348/SEND_experiences_with_schools_and_colleges.pdf [Darllenwyd: 12 Mai

2018].

Siencyn, S. (2010). *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*.

Caerfyrddin: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Snowling, M., Duff, F., Petrou, A., Schiffeldrin, J. a Bailey, A. (2011) 'Identification of children at risk of dyslexia: the validity of teacher judgements using 'Phonic Phases'', *University of York*, 34, 2. [Ar-lein]. Ar gael:

<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1111/j.1467-9817.2011.01492.x> [Darllenwyd: 11

Mai 2018].

University of Leicester (2008) 'The social and medical model of disability,'

<http://www2.le.ac.uk/offices/ssds/accessability/staff/accessabilitytutors/information-for-accessability-tutors/the-social-and-medical-model-of-disability> [Darllenwyd: 10 Mai 2018].

Van der Leij, A. (2013). 'Dyslexia and Early Intervention: What Did We Learn from the Dutch Dyslexia Programme?', [https://web-b-ebsohost-](https://web-b-ebsohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=81d4e069-7efd-406e-8a9b-a86375c10711%40pdc-v-sessmgr01)

[com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=81d4e069-7efd-406e-8a9b-a86375c10711%40pdc-v-sessmgr01](https://web-b-ebsohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=81d4e069-7efd-406e-8a9b-a86375c10711%40pdc-v-sessmgr01) [Darllenwyd: 12 Mai 2018].

Vaughn, S., Cirino, P., Wanzek, J., Wexler, J. a Fletcher, J. (2010) School Psychology Review: Bethesda, 39, 1, tt. 3-21.

Vidyasagar, T. a Pammer, K. (2009) 'Dyslexia: a deficit in visuo-spatial attention, not in phonological processing', *Trends in Cognitive Science*, 14, 2, tt. 57-63. [Ar-lein]. Ar gael: <http://lynnhellerstein.com/wp-content/uploads/2013/03/Dyslexia-spatial-atten-not-phonol-process.pdf> [Darllenwyd: 13 Mai 2018].